**Memorandwm Esboniadol Rheoliadau Iechyd Planhigion etc (Ffioedd Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) 2024**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Grŵp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Iechyd Planhigion etc (Ffioedd Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) 2024.

Rwyf wedi gwneud y datganiadau sy'n ofynnol o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Fe welwch y datganiadau hyn yn Rhan 2 o'r Atodiad i'r Memorandwm hwn.

Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Huw Irranca-Davies AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**16 Ebrill 2024**

## RHAN 1

### 1. Disgrifiad

Mae Rheoliadau Iechyd Planhigion etc (Ffioedd Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) 2024 ('yr offeryn hwn') yn cael eu gwneud o dan bwerau a roddir gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ("y Ddeddf Ymadael") i ddiwygio deddfwriaeth ym maes ffioedd iechyd planhigion ac iechyd coed.

Mae'r offeryn hwn yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018 a Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru) 2019 sy'n gymwys mewn perthynas â Chymru. Mae'n alinio ffioedd ar gyfer planhigion a chynhyrchion planhigion â'r newid yn amlder y gwiriadau a gynhelir ledled Prydain Fawr ar ôl rhoi Model Gweithredu Targed y Ffin (TOM) ar waith. Bydd yr offeryn yn diwygio hefyd y ffioedd sy'n gysylltiedig â gwirio dogfennau o ganlyniad i newid gwiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol.

Mae'r newidiadau i ba mor aml y cynhelir gwiriadau a chyflwyno gwiriadau sy'n seiliedig ar risg ar nwyddau risg canolig a fewnforir o aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein a'r Swistir, o 30 Ebrill 2024 yn ganlyniad Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Lloegr) a Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion) (Amlder Gwiriadau) (Diwygio) 2024.

Hefyd, bydd Rheoliadau Iechyd Planhigion etc (Ffioedd Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) 2024 yn cywiro gwall yn Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018 a wnaed yn Atodlen 1 o Reoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2022 lle codwyd nifer o ffioedd ar lwythi cymysg. Bwriad y polisi oedd rhoi pob categori o blanhigyn sydd i'w blannu mewn un categori, ond arweiniodd y ddeddfwriaeth at gam godi ffioedd, yn ôl categori yn hytrach nac yn ôl llwyth. Bydd y diwygiad yn sicrhau bod pob categori o blanhigyn sydd i'w blannu mewn un categori, a bydd hyn yn sicrhau mai dim ond un ffi unffurf fydd yn cael ei chodi ar lwythi o blanhigion sydd i'w plannu.

### 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Rhoddwyd ystyriaeth bellach i adroddiad y Pwyllgor (SL(6)463), ac mae'r offeryn wedi'i ddiwygio a'i ailosod.

Cafodd yr offeryn ei gywiro fel bod:

- Yn yr Atodlen 1 newydd yn y cofnod olaf yng ngholofn 2 ar gyfer “Pyrus” bydd y wlad “De Affrica” yn cael ei chynnwys felly bydd y testun yn gorffen “Liechtenstein, De Affrica neu’r Swistir”.
- Yn rheoliad 3 diwygir y cyfeiriad at bennawd Atodlen 1 i “(fees for inspections in connection with a plant passport authority)”.
- Bydd ysgwydd nodyn yr Atodlen 2B newydd yn cael ei ddiwygio i gyfeirio at “Rheoliad 3(2)(a) a (b)”.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae'r offeryn yn ymwneud â'r Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mae'n cael ei wneud gan Weinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 7 o Atodlen 4 o'r Ddeddf Ymadael sy'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i newid ffioedd a thaliadau oedd yn bod cyn ymadael. Yn unol â pharagraffau 21 ac 1(8) o Atodlen 7, mae arfer y pŵer hwn gan Weinidogion Cymru yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

Mae'r offeryn hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft. Mae'r Gweinidog wedi gwneud datganiadau perthnasol yn Rhan 2 o'r Atodiad i'r Memorandwm Esboniadol hwn.

Bydd yr offeryn hwn yn diwygio Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018 a Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru) 2019 sy'n gymwys mewn perthynas â Chymru. Mae'n alinio ffioedd ar gyfer planhigion a chynhyrchion planhigion â'r newid yn amlder y gwiriadau sy'n digwydd ledled Prydain Fawr ar ôl rhoi Model Gweithredu Targed y Ffin ar waith, yn ogystal â chywiro offeryn blaenorol.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Diben yr offeryn hwn yw cyflwyno ffioedd ar gyfer rhoi ail garreg filltir y Model Gweithredu Targed y Ffin ar waith, sy'n dod i rym erbyn 30 Ebrill 2024, i amddiffyn bioddiogelwch a chefnogi masnach rhwng Prydain Fawr a thrydydd gwledydd.

Mae newidiadau'n cael eu gwneud i Reoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018 i sicrhau bod y ffioedd a godir am wirio nwyddau a fewnforir i Gymru yn adlewyrchu pa mor aml y cynhelir y gwiriadau hynny.

Yn ogystal, cywirir gwall yn Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018 a wnaed yn Atodlen 1 o Reoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2).

Mae'r Alban a Lloegr yn bwriadu gwneud deddfwriaeth gyfochrog, a fydd yn cael yr un effaith yn eu tiriogaethau nhw.

Mae offeryn ar wahân - Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Lloegr) a Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion) (Amlder Gwiriadau) (Diwygio) 2024 - yn cael ei osod yn Senedd y DU ar 4 Mawrth 2024. Bydd yn diwygio Rheoliad (UE) 2017/625 ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau bod cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion amddiffyn planhigion ("y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol") a Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion) (Amlder Gwiriadau) 2022 (O.S. 2022/739) yn cael eu cymhwyso. Bydd yn cyflwyno gwiriadau sy'n seiliedig ar risg ar rai nwyddau a fewnforir o aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein a'r Swistir o 30 Ebrill 2024.

***Beth oedd unrhyw gyfraith berthnasol yr UE yn ei wneud cyn y diwrnod ymadael?***

Mae Rheoliad (UE) 2016/2031 ar fesurau amddiffyn rhag plâu planhigion, a Rheoliad (UE) 2017/625 ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill (a gyflawnir i sicrhau bod cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, a rheolau iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion amddiffyn planhigion yn cael eu cymhwyso) yn sefydlu rheolaethau a chyfyngiadau sy'n gymwys i fewnforio planhigion, plâu planhigion a deunyddiau penodol eraill, ac i'w symud yn fewnol. Diben y Rheoliadau hyn yw helpu i leihau risgiau bioddiogelwch a diogelu'r amgylchedd rhag plâu niweidiol.

Mae Erthygl 79 o Reoliad (UE) 2017/625 yn ei gwneud yn ofynnol codi ffioedd am reolaethau swyddogol penodol, gan gynnwys gwiriadau iechyd planhigion ar rai llwythi a reoleiddir sy'n cael eu mewnforio. Mae Rheoliadau 2018 (fel y'u diwygiwyd) yn pennu ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru mewn perthynas â gwasanaethau iechyd planhigion, gan gynnwys gwasanaethau archwilio mewnforion, a ddarperir yng Nghymru.

Mae Atodiad 6 i Reoliad (UE) 2017/625 yn esbonio ystyr y cyfnod graddoli trosiannol.

Mae Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru) 2019 yn rhoi Erthygl 13D o Gyfarwyddeb y Cyngor /2000/29/EC ar fesurau amddiffynnol rhag cyflwyno organebau sy'n niweidiol i blanhigion neu gynhyrchion planhigion i'r Gymuned, a rhag eu lledaenu o fewn y Gymuned, ar waith.

***Pam y mae'n cael ei newid?***

O dan y ddeddfwriaeth bresennol, caiff gwiriadau iechyd planhigion eu cynnal ar lwythi blaenoriaeth uchel (a elwir hefyd yn risg uchel) o blanhigion, cynhyrchion planhigion a gwrthrychau eraill a fewnforir i Brydain Fawr o aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein, a'r Swistir, ac ar nwyddau a reoleiddir sy'n cael eu mewnforio o bob trydedd wlad arall, ar sail risg. Mae Gwasanaethau Iechyd Planhigion Prydain yn cynnal yr archwiliadau hyn rhag i organeddau sy'n niweidiol i blanhigion neu gynhyrchion planhigion gael eu cyflwyno a'u lledaenu. Mae Gwasanaethau Iechyd Planhigion Prydain yn codi ffioedd am gynnal archwiliadau.

Mae'r ddeddfwriaeth yn cael ei diwygio i sicrhau bod ffïoedd cyfwerth yn cael eu codi hefyd â chost cynnal gwiriadau ar nwyddau sy'n peri risg ganolig i fioddiogelwch Prydain Fawr, yn unol â Model Gweithredu Targed y Ffin. Ni fydd y ffioedd hyn yn cael eu cyflwyno ar gyfer "porthladdoedd perthnasol".

Mae'r offeryn hefyd yn diwygio Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018 i gywiro'r math o archwiliad y gellir codi ffi amdano o dan y Rheoliadau hynny.

Mae diwygiad yn cael ei wneud hefyd i Reoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru) 2019 i ddileu geiriad sydd wedi'i gynnwys ar gam am rai archwiliadau.

Mae'r diwygiadau yn sicrhau cysondeb ac aliniad â Lloegr a'r Alban, lle mae diwygiadau cyfatebol yn cael eu gwneud.

**Beth y bydd yn ei wneud nawr?**

Bydd ffioedd cyfatebol am gynnal gwiriadau mewnforio mewn porthladdoedd nad ydynt tyn "borthladdoedd perthnasol" yn cael eu cyflwyno ar nwyddau risg canolig o aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein, a'r Swistir, o 30 Ebrill 2024.

Bydd yr offeryn hefyd yn cywiro gwall yn Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018 lle codir mwy nag un ffi am lwythi cymysg. Bydd y gwelliant yn sicrhau mai dim ond un ffi unffurf sy'n cael ei chymhwyso i lwythi sy'n cynnwys planhigion sydd i'w plannu. Mae diwygiad yn cael ei wneud hefyd i Reoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru) 2019 i ddileu geiriad sydd wedi'i gynnwys ar gam am rai archwiliadau.
Mae'r diwygiad yn sicrhau cysondeb ac aliniad â Lloegr a'r Alban, lle mae diwygiadau cyfatebol yn cael eu gwneud.

## 5. Ymgynghori

Mae Llywodraeth y DU, mewn cydweithrediad â Llywodraethau Cymru a'r Alban, wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid penodol ar y cynnig i gyflwyno gwiriadau a ffioedd ar nwyddau risg canolig a fewnforir o'r UE, Liechtenstein, a'r Swistir. Bwriad yr ymgysylltu oedd holi rhanddeiliaid iechyd planhigion, gan gynnwys cymdeithasau masnach a'u haelodau, sef y rheini yr effeithir arnynt fwyaf gan yr offeryn hwn am mai nhw sy'n cynrychioli'r busnesau sy'n mewnforio'r mwyafrif o nwyddau y mae angen cynnal gwiriadau a ffïoedd iechyd planhigion arnyn nhw. Parodd y cyfnod ymgysylltu am 10 wythnos.

Roedd yr ymatebwyr ar y cyfan yn cefnogi'r cynigion. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion ac ymateb y Llywodraeth i'r ymatebion hynny ar gov.uk yma.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)

***Nodwch:***

Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi cael ei gynnal mewn perthynas â Rheoliad 2 o'r Offeryn hwn.

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddio hwn wedi ystyried dau opsiwn. Sef:

1) Peidio â deddfu (gwneud dim)
2) Deddfu (i gynnal y status quo)

## 6.1 Costau a manteision

### Opsiwn A – peidio â deddfu

O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai ffioedd iechyd planhigion yn cael eu hestyn i gynnwys archwilio ar sail risg dogfennau planhigion a chynhyrchion planhigion risg canolig o'r UE, Liechtenstein a'r Swistir na chyflwyno ffïoedd am gynnal archwiliadau ffisegol ac adnabod ar nwyddau. Byddai hyn yn golygu na fyddai'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) a'r Comisiwn Coedwigaeth, sy'n cynnal yr archwiliadau ac yn adennill eu costau drwy godi ffioedd ar ran yr Awdurdod Cymwys (Gweinidogion Cymru yng Nghymru), yn gallu adennill costau ardystio allforion a'r archwiliadau sy'n gysylltiedig â gwirio dogfennau ar y ffin a gwiriadau ffisegol ac adnabod yng Nghymru. Mae'r archwiliadau hyn yn hanfodol i sicrhau bioddiogelwch planhigion. Hebddynt, byddai Cymru o dan anfantais ac yn llai abl i ddelio â phlâu a chlefydau.

### Costau

Nid oes unrhyw gostau ychwanegol wedi eu nodi ar gyfer yr opsiwn hwn. Er y byddai Cymru, yn ddelfrydol, yn gallu cynnal yr archwiliadau hyn ei hun, nid yw hynny'n bosibl. Felly, mae Cymru'n dibynnu ar y Comisiwn Coedwigaeth ac APHA i gynnal yr archwiliadau hyn ar ran Gweinidogion Cymru ar sail adennill costau. Adran yr Amgylchedd, Ffermio a Materion Gwledig (Defra) Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am y gyllideb ar gyfer archwilio planhigion a chynnyrch planhigion ar y ffin yng Nghymru. O beidio â chyflwyno trefn ffioedd newydd, mae risg na fyddai'r refeniw a geir o'r ffioedd yn ddigon i dalu cost y gwasanaeth a ddarperir gan y Comisiwn Coedwigaeth ac APHA, a byddai'n rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gyda Defra, fel deiliad y gyllideb, i benderfynu sut i gwrdd ag unrhyw ddiffyg.

Hefyd, heb y rheoliadau, byddai anghysondeb rhwng y drefn ffioedd yng Nghymru a Lloegr, gan olygu costau logistaidd ychwanegol posibl i fusnesau a masnachwyr, yn ogystal ag i APHA a'r Comisiwn Coedwigaeth, yng Nghymru.

### Manteision

Nid oes unrhyw fanteision wedi eu nodi o ran yr opsiwn hwn. Er bod costau wrth fewnforio cynhyrchion planhigion, mae'r costau hyn yn angenrheidiol i amddiffyn y wlad rhag plâu a chlefydau planhigion trwy sicrhau hyfywedd y cyrff archwilio (APHA a'r Comisiwn Coedwigaeth).

### Opsiwn 2 – Deddfu.

O dan yr opsiwn hwn, byddai ffioedd iechyd planhigion yn cael eu hestyn i gynnwys gwirio ar sail risg dogfennau planhigion a chynhyrchion planhigion risg canolig o'r UE, Liechtenstein a'r Swistir neu gyflwyno ffïoedd am gynnal archwiliadau ffisegol a adnabod ar nwyddau. Byddai hyn yn galluogi trefn ffioedd am gynnal gwiriadau, ar ôl gweithredu'r Model Gweithredu Targed y Ffin (TOM). Byddai hyn yn sicrhau bod trefn ffioedd Cymru yn gyson ag un Lloegr a'r Alban. Byddai'n sicrhau bod y drefn archwilio yng Nghymru yn parhau'n

ariannol hyfyw i APHA a'r Comisiwn Coedwigaeth ac na fyddai angen cymorth ariannol ychwanegol arnynt gan Defra a Llywodraeth Cymru. Yn y pen draw, bydd hyn yn golygu y gall Cymru barhau i gynnal trefn bioddiogelwch gref ar y ffin gan gyfrannu at gadw Cymru a'r DU yn fioddiogel.

**Costau**

Mae trefn codi ffioedd am gynnal gwiriadau ar y ffin yn egwyddor sefydledig sydd eisoes yn cael ei chynnal wrth ddelio â phlanhigion a chynnyrch planhigion o weddill y byd a phlanhigion a chynnyrch planhigion risg uchel. Disgwylir i'r Rheoliadau olygu costau parhaus ychwanegol i fusnesau sy'n mewnforio planhigion a chynhyrchion planhigion penodol o'r UE, Liechtenstein a'r Swistir ar ôl gweithredu'r TOM llawn ar Ebrill 30, a phorthladdoedd arfordir y Gorllewin wedi hynny (31 Hydref 2024 fan cynharaf). Bydd y gost hon ar ffurf ffi a delir am wirio iechyd planhigion wrth Bwynt Rheoli ar y Ffin neu Bwynt Rheoli. Bydd y ffi yn amrywio yn ôl y math o gynnyrch a pha mor aml y mae angen archwilio. Mae'r ffioedd wedi'u pennu fel bod y Comisiwn Coedwigaeth ac APHA yn gallu adennill eu costau llawn.

Gall busnesau hefyd wynebu cost pontio wrth ymgyfarwyddo â'r rhestrau ffioedd newydd. Ond rhan fach o'r gost ymgyfarwyddo ehangach sy'n gysylltiedig â'r TOM fydd hyn.

Mae'r graddau y mae pob busnes yn amsugno'r costau ychwanegol hyn neu'n ceisio eu trosglwyddo i'w cwsmeriaid (ar ffurf prisiau uwch) yn debygol o ddibynnu ar fodelau busnes unigol a lefelau'r gystadleuaeth yn yr ardal.

Gan fod y TOM yn bolisi newydd sy'n cael ei roi ar waith yn 2024, mae ffigurau ynghylch nifer y busnesau sy'n mewnforio planhigion a chynnyrch planhigion i Gymru a maint ac amlder y mewnforion hynny yn ansicr. Unwaith y bydd y TOM wedi'i roi ar waith, bydd gan y DU fwy o ddata iddi allu adolygu'r sefyllfa hon mewn deddfwriaeth ffioedd iechyd planhigion yn y dyfodol.

Mae rhywfaint o ddata[1] ar gael ynghylch faint o gynhyrchion planhigion sy'n cael eu mewnforio i Brydain Fawr bob blwyddyn. Nid yw'r data hyn yn cael eu dadansoddi ymhellach na hynny, felly nid yw'n bosibl nodi gwerth y deunydd a fewnforir i Gymru. Wedi dweud hynny, £18.8 biliwn oedd gwerth y fasnach planhigion a nwyddau planhigion yn 2022 gyda chyfaint net cyfatebol o 22.7 miliwn tunnell. O hyn, mae tua £11.3 biliwn yn cael ei fewnforio o'r UE. Credir bod y rhan fwyaf o'r mewnforion hyn yn dod trwy borthladdoedd De-ddwyrain Lloegr. Fel amcangyfrif gorau, credir bod hyd at 2% o'r mewnforion o'r UE yn dod trwy Gymru, ac yn werth hyd at £226m.

Amcangyfrifir bod planhigion yn werth £15.7 biliwn y flwyddyn[2] i'r DU. Mae hynny'n cynnwys y buddion economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol y mae ein planhigion a'n coedweddau'n yn eu darparu. Ar sail ei harwynebedd o'i

---

[1] Iechyd Planhigion – masnach ryngwladol a llwythi rheoledig, 2018-2022 – cyhoeddi ystadegau arbrofol - GOV.UK (www.gov.uk)

[2] Strategaeth bioddiogelwch planhigion ar gyfer Prydain Fawr (2023 i 2028) - GOV.UK (www.gov.uk)

gymharu â'r DU, mae planhigion a choedweddau Cymru yn werth tua £1.3 biliwn y flwyddyn.

Yn 2022, hysbyswyd APHA yng Nghymru a Lloegr am 479,000 o lwythi o gynwyddau â deunydd rheoledig .

**Manteision**

Fel y disgrifir uchod, bydd y drefn ffioedd newydd yn adlewyrchu costau'r Comisiwn Coedwigaeth a'r APHA wrth gynnal archwiliadau iechyd planhigion a pha mor aml y cynhelir yr archwiliadau hynny i roi TOM ar waith. Mae'r ffioedd wedi'u pennu i adennill y costau llawn a dylai hynny helpu i sicrhau mai'r mewnforiwr sy'n talu cost y gwiriadau ac nid y trethdalwr.

Mae Prydain Fawr yn mewnforio tua 18.6 miliwn tunnell o gynhyrchion planhigion o bob rhan o'r byd bob blwyddyn. Mae'r mewnforion o'r UE yn werth £7.91 biliwn y flwyddyn (er ers gadael yr UE gallai'r ffigur hwn gynyddu). Mae sicrhau bod trefniadau i archwilio cynhyrchion planhigion yn cyfrannu at ddiogelu'r wlad rhag clefydau planhigion ac at ei gwneud yn fwy bioddiogel. Er enghraifft, mae ffigyrau diweddar yn awgrymu y byddem yn colli gwerth £80 miliwn o datws pe ceid achos o chwilod Colorado.  Bydd yr archwiliadau'n helpu hefyd i sicrhau bod gan fusnesau blanhigion bioddiogel ar eu safleoedd, yn barod i'w gwerthu. Bydd yr ymdeimlad hwn o ddiogelwch yn ennyn hyder busnesau yn eu cynnyrch heb effeithio ar eu cynhyrchion eraill sy'n cael eu storio ar hyn o bryd mewn cyfleusterau fel meithrinfeydd planhigion.

Ymhellach, gan fod ffïoedd union yr un faint yn cael eu cyflwyno yn Lloegr a'r Alban, bydd y ddeddfwriaeth yn gyson ar draws Prydain Fawr. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n symlach ac yn haws i fusnesau sy'n gweithredu ym Mhrydain, ac yn sicrhau hefyd nad yw busnesau Cymru dan anfantais o'u cymharu â'u cymheiriaid yn Lloegr a'r Alban.

Mae'r opsiwn hwn, felly, yn lleihau'r risg o adael plâu a chlefydau planhigion i mewn i Brydain Fawr, gan ddod â mantais i fusnesau a darparu rheolaethau cadarn i amddiffyn bioddiogelwch y DU.

**Asesiad Effaith Integredig**

Nid oes asesiad effaith integredig wedi'i gynnal eto ar gyfer y Rheoliadau hyn.

**Ymgynghori**

Mae Llywodraeth y DU, mewn cydweithrediad â Llywodraethau Cymru a'r Alban, wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid penodol ar y cynnig i gyflwyno gwiriadau a ffioedd ar nwyddau risg canolig a fewnforir o'r UE, Liechtenstein, a'r Swistir. Bwriad yr ymgysylltu oedd holi rhanddeiliaid iechyd planhigion, gan gynnwys cymdeithasau masnach a'u haelodau, sef y rheini yr effeithir arnynt fwyaf gan yr offeryn hwn am mai nhw sy'n cynrychioli'r busnesau sy'n mewnforio'r mwyafrif o nwyddau y mae angen cynnal gwiriadau a ffïoedd iechyd planhigion arnyn nhw. Parodd y cyfnod ymgysylltu am 10 wythnos.

Roedd yr ymatebwyr ar y cyfan yn cefnogi'r cynigion. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion ac ymateb y Llywodraeth i'r ymatebion hynny ar gov.uk yma.

**Casgliad**

Opsiwn 2 yw'r opsiwn a argymhellir. Mae'r opsiwn hwn yn cadw'r status quo, gan alluogi busnesau Cymru i barhau i fewnforio cynhyrchion planhigion bio-ddiogel o'r UE. Nodwyd y bu cynnydd yng nghostau'r opsiwn hwn a allai arwain at gynnydd yng nghostau tyfwyr a defnyddwyr ond mae manteision cael Prydain Fawr fioddiogel yn drech na hynny. Hefyd, mae opsiwn 2 yn sicrhau trefn ffioedd gyson ar draws Prydain Fawr, gan osgoi dryswch neu faich diangen i fusnesau a masnachwyr Cymru, ac i archwilwyr yr APHA a'r Comisiwn Coedwigaeth.

### 6.2 Asesu'r gystadleuaeth

Cynhaliwyd yr asesiad i hidlo'r gystadleuaeth fel a ganlyn:

| Y prawf effaith ar gwmnïau | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Atebwch Ie neu na** |
| **C1**: Yn y farchnad (marchnadoedd) y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni (arnynt), a oes gan unrhyw gwmni fwy nag 10% o gyfran y farchnad? | Na |
| **C2**: Yn y farchnad (marchnadoedd) y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni (arnynt), a oes gan unrhyw gwmni fwy nag 20% o gyfran y farchnad? | Na |
| **C3**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd o leiaf 50% o gyfran y farchnad? | Na |
| **C4**: A fyddai costau'r rheoliad yn effeithio ar rai cwmnïau yn fwy o lawer nag eraill? | Na |
| **C5**: A yw'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y cwmnïau? | Na |
| **C6**: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, sy'n gostau nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Na |
| **C7**: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau rheolaidd uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, sy'n gostau nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Na |
| **C8**: A yw newid technolegol cyflym yn un o nodweddion y sector? | Na |
| **C9**: A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, amrywiaeth neu leoliad eu cynhyrchion? | Na |

Nid oes unrhyw bryderon am gystadleuaeth wedi eu nodi.

### 6.3 Adolygu ar ôl gweithredu

Mae ffioedd iechyd planhigion yn cael eu hadolygu bob blwyddyn. Bryd hynny, bydd mwy o ddata ar gael am y nwyddau planhigion a fewnforir a gellir eu defnyddio i ddeall ymhellach effaith cynnydd mewn ffioedd.

**Atodiad**
**Datganiadau o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018**

**Rhan 1**
Tabl Datganiadau o dan Ddeddf 2018

Mae'r tabl hwn yn nodi'r datganiadau a allai fod yn ofynnol gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf 2018. Mae'r tabl hefyd yn nodi'r datganiadau hynny a allai fod yn ofynnol gan Weinidogion y Goron o dan Ddeddf 2018, y mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i'w darparu hefyd pan fydd hynny'n ofynnol. Mae'r datganiadau gofynnol yn Rhan 2 o'r atodiad hwn.

| Datganiad | Ble mae'r gofyniad | I bwy y mae'n berthnasol | Beth sy'n ofynnol ganddo |
|---|---|---|---|
| Sifftio | Paragraffau 3(7) a 4(3), Atodlen 7<br><br>Rheol Sefydlog 27.1A | Gweinidogion Cymru sy'n arfer pwerau yn Rhan 1 o Atodlen 2 i wneud Offeryn Statudol negyddol<br><br>Mae paragraff 3(7) yn gymwys i Weinidogion y Goron, ond mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad | Datganiad i esbonio pam y dylai'r offeryn fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol ac, os yw'n berthnasol, pam mae'n anghytuno ag argymhelliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (fel y pwyllgor sifftio) |
| Priodoldeb | Is-baragraff (2) o baragraff 28, Atodlen 7 | Mae'n berthnasol i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau | Datganiad nad yw'r Offeryn Statudol yn gwneud mwy na'r hyn sy'n briodol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | yn Atodlen 2 | |
| Rhesymau Da | Is-baragraff (3) o baragraff 28, Atodlen 7 | Mae'n berthnasol i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2 | Datganiad i esbonio'r rhesymau da dros wneud yr offeryn a bod yr hyn sy'n cael ei wneud yn gam rhesymol i'w gymryd. |
| Cydraddoldeb | Is-baragraffau (4) a (5) o baragraff 28, Atodlen 7 | Mae'n berthnasol i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2 | Datganiad i egluro pa ddiwygiadau, diddymiadau neu ddirymiadau, os o gwbl, sy’n cael eu gwneud i Ddeddfau Cydraddoldeb 2006 a 2010 a’r ddeddfwriaeth a wnaed oddi tanynt.<br><br>Datganiad bod y Gweinidog wedi rhoi ystyriaeth ddyledus i'r angen i ddileu achosion o wahaniaethu ac ymddygiad arall a waherddir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. |
| Esboniadau | Is-baragraff (6) o baragraff 28, Atodlen 7 | Mae'n berthnasol i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. | Datganiad i egluro’r offeryn, nodi’r gyfraith berthnasol cyn y diwrnod ymadael, esbonio effaith yr offeryn ar gyfraith yr UE a ddargedwir a rhoi gwybodaeth am ddiben yr offeryn, ee, ai dim ond |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2 | mân newidiadau neu newidiadau technegol y bwriedir eu gwneud i gyfraith yr UE a ddargedwir. |
| Troseddau | Is-baragraffau (3) a (7) o baragraff 28, Atodlen 7 | Mae'n berthnasol i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2 | Datganiad yn nodi'r 'rhesymau da' dros greu trosedd, a'r gosb sydd ynghlwm. |
| Is-dirprwyo | Paragraff 30, Atodlen 7 | Mae'n berthnasol i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a pharagraff 1 o Atodlen 4 i greu pŵer deddfwriaethol na ellir ei arfer gan Weinidog y Goron neu Awdurdod Datganoledig.<br><br>Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2 neu baragraff 1 o | Datganiad i esbonio pam mae'n briodol creu pŵer o'r fath sydd wedi'i is-ddirprwyo. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Atodlen 4 i greu pŵer deddfwriaethol na ellir ei arfer gan Weinidog y Goron neu Awdurdod Datganoledig | |
| Brys | Is-baragraffau (2) a (8) o baragraff 7, Atodlen 7 | Gweinidogion Cymru sy’n arfer pwerau yn Rhan 1 o Atodlen 2 ond sy’n defnyddio’r weithdrefn frys ym mharagraff 7 o Atodlen 7 | Datganiad bod Gweinidogion Cymru o'r farn bod angen gwneud yr Offeryn Statudol drwy ddefnyddio'r weithdrefn frys a'r rhesymau dros y farn honno. |

## Rhan 2

Datganiadau sy'n ofynnol wrth ddefnyddio pwerau galluogi
o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

### 1. Datganiad priodoldeb

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, Huw Irranca-Davies, wedi gwneud y datganiad canlynol ynghylch defnyddio pwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

"Yn fy marn i nid yw Rheoliadau Iechyd Planhigion etc (Ffioedd Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) 2024 yn gwneud mwy nag sy'n briodol".

Hynny am fod yr offeryn hwn yn gwneud newidiadau i sicrhau bod y polisi cyfredol ynghylch ffioedd am archwilio planhigion a chynhyrchion planhigion yn cael ei gadw.

### 2. Rhesymau da

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, Huw Irranca-Davies, wedi gwneud y datganiad canlynol ynghylch defnyddio pwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

“Yn fy marn i, mae rhesymau da dros y darpariaethau yn yr Offeryn hwn ac rwyf wedi dod i'r casgliad eu bod yn gam rhesymol.” Sef; Bydd y ffioedd yn adlewyrchu cost y Comisiwn Coedwigaeth ac APHA o gynnal y gwiriadau iechyd planhigion perthnasol a pha mor aml y mae angen y gwiriadau hynny i roi TOM ar waith. Mae'r ffioedd wedi'u pennu i adennill y costau llawn a dylai hynny helpu i sicrhau mai'r mewnforiwr sy'n talu cost y gwiriadau ac nid y trethdalwr.

### 3. Cydraddoldeb

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, Huw Irranca-Davies, wedi gwneud y datganiad(au) canlynol:

“Nid yw'r offeryn drafft yn diwygio, yn diddymu nac yn dirymu darpariaeth na darpariaethau yn Neddf Cydraddoldeb 2006 na Deddf Cydraddoldeb 2010 nac mewn is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan y Deddfau hynny.”

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, Lesley Griffiths, wedi gwneud y datganiad canlynol ynghylch defnyddio pwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

“Mewn perthynas â'r offeryn drafft, rwyf i, Lesley Griffiths, wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waharddir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 neu oddi tani.”

## 4. Esboniadau

Gwnaed y datganiad esboniadau ym mharagraff 4 (Diben a'r effaith y bwriedir i'r ddeddfwriaeth ei chael) o brif destun y memorandwm esboniadol hwn.